

## **Pen-y-lan: Ysgol Gynradd Howardian: Mesurau Diogelwch y Ffyrdd**

### **Adroddiad Ymgynghori**

**Rhif y Project: CO17003**

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynigion uchod rhwng 03/10/2017 a 18/10/2017.

Diben yr ymgynghoriad oedd casglu gwybodaeth gan y gymuned leol er mwyn gwella'r cynllun a mynd i'r afael â phryderon lleol pan fydd yn bosibl.

O'r 280 eiddo yr ymgynghorwyd arnynt a'r 3 o hysbysiadau safle a arddangoswyd, derbyniwyd 11 ymateb unigol.

- |    |  |
|----|--|
| 10 | Yn cefnogi'r cynllun, rhai yn cynnig sylwadau/awgrymiadau ychwanegol |
| 1  | Anghytuno â'r cynigion   |

Crynoir y pryderon a'r sylwadau isod mewn ysgrifen *italig*, ynghyd ag ymateb y Cyngor.

#### **Argymhelliad**

O ystyried yr isod, cynigir bwrw ymlaen gyda'r cynllun, fel y nodir yn y cynllun ymgynghori.

#### **Mater yn ymwneud â Mynediad at Dramwyfa**

*Preswylydd yn pryderu y byddai mynediad i'w dramwyfa yn cael ei rwystro gan rieni yn parcio'n agos i'r ysgol.*

Mae rhwystro mynediad i dramwyfeydd a methu â chydymffurfio â chyfyngiadau parcio yn fater i Swyddogion Gorfodi Parcio Dinesig sydd ar gael ar 02920872088 saith diwrnod yr wythnos rhwng 0700 a 2200. Dylid cofnodi digwyddiadau unigol yn uniongyrchol iddynt, gan wneud cais am eu cymorth.

#### **Mater – lleoli croesfan sebra**

*Awgrymodd preswylydd y dylid lleoli croesfan sebra yn agosach at fynedfa'r parc, gan fod nifer o'r rhieni'n cael mynediad i'r ysgol drwy'r llwybr hwn.*

Nodwyd lleoliad y groesfan sebra yn ystod yr Asesiad Trafnidiaeth a wnaed fel rhan o'r broses cais cynllunio. Credir mai'r lleoliad a nodwyd yn y cynllun ymgynghori a fyddai'n gwasanaethu orau'r llwybrau cerddwyr i'r ysgol.

Gwnaed ceisiadau i gael arolygon trafndiaeth ychwanegol er mwyn asesu os oes cyfiawnhad i gael cyfleuster croesi ychwanegol i'w osod ger mynedfa'r parc. Os oes galw am y cyfleuster ychwanegol hwn caiff ei gyflenwi yn amodol ar fod cyllid ar gael.

### Mater – Culhau'r ffordd yn effeithio ar feicwyr

*mae culhau'r ffordd er mwyn arafu traffig yn hunllef wrth i geir geisio gwasgu heibio gan olygu tebygolrwydd lawer yn uwch y cewch eich taro oddi ar eich beic.*

Ni chaiff y ffordd ei chulhau yn sylweddol, a bydd gofyn cynnal lleiafswm lled o 6.1m ar y groesfan sebra. Cynigir gostwng y terfyn cyflymdra 20mya ar Hammond Way, gan leihau cyflymder cerbydau a fydd yn cynorthwyo i greu amgylchedd fwy diogel, yn enwedig ar gyfer defnyddwyr y ffordd sy'n agored i niwed megis beicwyr a cherddwyr.

### Mater – Twmpath cyflymder

*Rwy'n anghytuno hefyd â'r cynnig i gael bwrdd arafu wedi'i osod wrth i chi droi oddi ar Colchester Avenue. Wrth i lygredd awyr ddod yn broblem gynyddol ac nad yw twmpathau cyflymder a byrddau arafu yn cael eu ffafrio gan nad yw pobl am weld ceir yn arafu a chyflymu gan greu llawer o fygdarthau ger eu tai.*

Mae arafu traffig wedi ei brofi yn ffordd effeithiol o leihau damweiniau ffordd. Bydd y traffig yn gyrru ar gyflymderau arafach a fydd yn creu amgylchedd priffordd diogelach i holl ddefnyddwyr y ffordd.

Awgrymodd strategaeth ansawdd aer genedlaethol ddiweddaraf y Llywodraeth y gallai gwaredu rhwystrau ffordd gael ei ystyried fel dewis amgen i godi arian ar gyfer Parthau Aer Glân, fodd bynnag mae grwpiau diogelwch ffyrdd wedi codi pryderon y gallai hyn arwain at gynnydd mewn gwrthdrawiadau a lleihau diogelwch ffyrdd. Ar hyn o bryd, nid oes gan Gyngor Caerdydd unrhyw gynlluniau i waredu twmpathau ffordd, yn enwedig o ardaloedd preswyl gyda llifoedd traffig is, nid oes gan ardaloedd o'r fath fel arfer broblemau ansawdd aer, felly nid yw twmpathau cyflymder yn cyfrannu'n helaeth at lygryddion.

### Mater – Mynediad Gogleddol i'r Ysgol

Croesawodd nifer o rieni'r cynigion ar gyfer Hammond Way, ond gwnaed cais am fesurau diogelwch ffyrdd ychwanegol ar Hampton Court Road.

*Fel preswilydd ar Barons Court a rhiant yn Howardian, rhaid i mi dynnu eich sylw at y gyrrwyr peryglus ac yn aml yn anystyriol sy'n pasio ar ddwy ochr y ffordd.*

*Mae rhieni sydd yn parcio ar ddwy ochr y ffordd yn creu tagfa ger gât gefn yr ysgol. Does dim arwyddion diogelwch a dim pwynt clir i groesi'r ffordd yn ddiogel ac rwyf wedi bod yn dyst fy hun i sawl digwyddiad agos.*

*A oes bwriad gennych i edrych ar sefyllfa Hampton Court Road, fyddai ychydig o groesfannau sebra ddim yn ddrwg o beth yno hefyd, yn enwedig gerllaw'r gât. Mae'r ardal hon yn brysur iawn adeg codi o'r ysgol.*

*Mae'r fynedfa yn troi'n fwy o dagfa gyda cherbydau yn ystod adegau gollwng a chodi ac mae hefyd ar gornel dynn. Buom hefyd yn dyst i ddamwain car aeth i arwydd stryd yn union y tu allan i'r gatiâu yn ystod yr haf, felly credaf yn gryf y dylai'r ardal hon gael ei hystyried o dan yr un cynigion rheoli traffig â Hammond Way.*

*Does dim ystyriaeth wedi ei rhoi i ddiogelwch ysgol / llinellau melyn / igam-ogam ar Hampton Court Road.*

Mae gwelliannau arfaethedig ar gyfer priffordd Hampton Court Road a fydd yn cynnwys cyfyngiad cyflymder o 20mya, cyfleuster croesfan nas reolir a chyfyngiadau parcio. Mae'r cynigion hyn wrthi'n cael eu cwblhau ar hyn o bryd a byddant yn destun proses ymgynghori ar wahân, y disgwylir iddi gael ei chyhoeddi ddiwedd Tachwedd 2017.

#### Mater – cyffordd Hammond Way â Colchester Avenue

Cododd ymatebwyr bryderon ynghylch gweithrediad y gyffordd â signalau.

*Mae nifer uchel o yrwyr sy'n goryrru ac yn neidio drwy oleuadau coch*

*Mae cymaint o draffig nad yw'n cydymffurfio â'r golau coch, yn enwedig y rhai ddaw o du Heol Casnewydd sy'n cael eu cywasgu pan fo ciwiau wrth i'r golau droi'n goch*

*Mae problem trefn oleuo ar y goleuadau traffig ar gyffordd Hammond Way. Byddai saeth hidlo yn ddefnyddiol am fod pobl yn gorfod troi ar y golau oren (os yw'n wyrdd ac yn brysur mae'n rhaid i chi obeithio y bydd rhywun yn gadael i chi droi neu byddwch wedi eich dal ar y gyffordd ac yn atal traffig sydd am droi i'r dde o Hammond Way). Mae achosion o blant a'r henoed yn bron iawn â chael damweiniau yma gyda thraffig yn mynd drwy oleuadau coch.*

Bydd marciau ffordd blwch melyn yn cael eu gosod ar draws y gyffordd, a fydd yn gymorth i gadw'r gyffordd yn glir rhag traffig yn ciwio.

Nid yw'r Cyngor yn gweithredu camerâu cyflymder a chamerâu golau coch, GoSafe sydd yn rheoli'r rhain. Rydym wedi codi'r lleoliad hwn a'r pryderon gyda nhw, gan ofyn iddynt adolygu'r lleoliad fel safle o bryder cymunedol.

Caiff amseriad y signalau ei adolygu i asesu a oes angen amser ychwanegol ar gerddwyr sy'n defnyddio'r croesfannau.

#### Mater – Gosodiad Mewnol yr Ysgol

*Mae angen croesfan arnom ar y ffordd yn union o flaen yr ysgol. Mae angen hon ar gyfer pobl sy'n cerdded i'r ysgol o Hampton Court Road ac i unrhyw un sy'n dod at yr ysgol o Hammond Way.*

*Mae'r tu mewn i gampws yr ysgol ei hun yn parhau i beri perygl dybryd i bobl sy'n mynychu'r Ganolfan Addysg Oedolion ac yn gyrru ar gyflymder hyd tramwyfa'r ysgol ac heb ofal na sylw. Eto, does dim arwyddion diogelwch cyflymder, ac eithrio'r rhai a wnaed â llaw gan yr ysgol. Nid yw rhain yn gweithredu fel ataliad digonol. Hefyd nid oes llwybr cerdded addas na chroesfan.*

Nid yw'r ffordd o fewn tiroedd yr ysgol yn rhan o'r Briffordd Fabwysiedig, ac felly ni allwn fynd i'r afael â'r pryderon hyn fel rhan o'r cynigion hyn. Fodd bynnag, mae'r mater hwn wedi ei godi gyda thîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion ac eir i'r afael ag ef fel rhan o'r gwaith o gwblhau'r adeilad ysgol newydd.

Cefnogaeth ar gyfer y cynllun

*Diolch i chi am eich cynnig ymgynghori i osod cynllun rheoli traffig ar Hammond Way. Cefnogwn y cynnig yn llawn.*

*Rwy'n cymeradwyo'r cynigion.*

*Ysgrifennaf i ychwanegu fy nghefnogaeth at y cynlluniau arfaethedig i gyflwyno Parth Diogelwch Ysgol ac i leihau'r terfyn cyflymder ar Hammond Way. Credaf fod hwn yn gynnig da*

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.**